Mae'r cais hwn yn gofyn am ganiatâd cynllunio llawn i ddatblygu 7 annedd. Bwriedir i ddwy (2) o'r saith (7) annedd fod yn rhai fforddiadwy. Y bwriad yw bod pob un o'r saith annedd yn dŷ sengl, dau lawr gyda dwy o'r anheddau â mynediad uniongyrchol oddi ar y C1062 a mynediad at bump (5) ohonynt o ffordd fynediad newydd. Ym mhlotiau 1-3 fel y'u labelwyd ar y cynllun bloc (y bwriad yw bod dwy o'r anheddau yn fforddiadwy) gwelir bod tair (3) ystafell wely gyda chegin cynllun agored, lle byw a lle bwyta ar y llawr gwaelod. Cyfanswm arwynebedd y llawr yw 106 metr sgwâr.

Y bwriad yw bod pedair (4) ystafell wely yn y plotiau a labelwyd yn blotiau 4 a 5, gyda garej a heulfan hefyd ar y llawr gwaelod. Cyfanswm arwynebedd y llawr yw 204 metr sgwâr.

Mae'r plotiau sydd wedi eu labelu yn blotiau E ac F ac sydd yn wynebu'r briffordd hefyd yn cynnwys pedair (4) ystafell wely gyda dwy o'r ystafelloedd gwely hynny yn rhai *en suite*. Ar y llawr gwaelod hefyd mae cegin ar wahân, ystafell fyw ac ystafell fwyta ynghyd â garej, ystafell aml-bwrpas a heulfan. Cyfanswm ôl troed plot E yw 222 metr sgwâr a chyfanswm ôl troed Plot F yw 212 metr sgwâr.

Bydd deunyddiau'r welydd yn amrywio, yn dibynnu ar y plotiau - gan gynnwys render, briciau a gwaith carreg. Y bwriad yw defnyddio llechi artifisial ar y to gyda ffenestri uPVC a drysau cyfansawdd.

Mae'r cais yn nodi mai'r modd o gael gwared ar ddŵr brwnt yw drwy'r brif garthffos.

POLISIAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Polisi Cynllunio Cenedlaethol Perthnasol

Ystyrir bod y polisiau a'r canllawiau cenedlaethol canlynol yn berthnasol:

- Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11)
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18: Trafnidiaeth
- Llawlyfr Strydoedd
- Canllaw Dylunio Cymru Gyfan – Dylunio Priffyrdd ar Ystadau

Polisi Cynllunio Lleol Perthnasol

Mae polisiau canlynol y Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

- S01 Twf Cynaliadwy
- S04 Datblygu mewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill'
- S05 Tai Fforddiadwy
- LU02 Gofynion sy'n ymwneud â phob datblygiad preswyl
- LU04 Diwallu Amrywiaeth o Anghenion Tai
- LU05 Sicrhau Cyflenwi Datblygiad Tai
- LU06 Dwysedd Tai
- DM01 Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol
- DM05 Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM10 Dylunio a Thirwedd
- DM12 Seilwaith Cyfleustodau
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y dirwedd yn gyffredinol
- DM20 Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd

Ystyrir bod y Canllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig canlynol yn berthnasol:

- Canllaw Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur
- Canllaw Cynllunio Atodol Amgylchedd Adeiledig a Dylunio
- Canllaw Cynllunio Atodol Safonau Parcio Cyngor Sir Ceredigion
- Canllaw Cynllunio Atodol Mannau Agored

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

DEDDF TROSEDDAU AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau gan ystyried effaith debygol gweithredu'r swyddogaethau hyn ar droseddau ac anhrefn yn ei ardal, ac i wneud popeth y gall yn rhesymol i atal troseddau ac anhrefn. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol neu annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabled; ailbennu rhyw; beichiogrydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gredo; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw dyledus i hybu cydraddoldeb yn cynnwys:

- gwaredu neu leihau'r anafteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r anghenion yn wahanol i rai pobl eraill;
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghyfartal o isel.

Rhoddwyd sylw dyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ynghylch y cais hwn. Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn peri goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt sy'n fwy nag ar unrhyw berson arall.

DEDDF LLESANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

YMATEBION YMGYNGHORI

- **Cyngor Cymuned Henfynyw** - Mae'n gwrthwynebu am y rhesymau canlynol:
- - Nid yw'r system garthffosiaeth yn ddigonol ar gyfer y cyflenwad tai presennol. Mae preswylwyr y gymuned hon wedi dioddef gorlifiad yn eu gerddi.

- - Nid yw'r cais yn nodi faint o dai fforddiadwy.
- - A roddwyd ystyriaeth i'r effaith ar yr iaith Gymraeg.
- - Dylid gwneud unrhyw newidiadau yn ysgrifenedig.
- **Polisi Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion** – Yn groes i bolisi Cynllun Datblygu Lleol S04 ac mae pryderon ynghylch y graddau y byddai'r datblygiad arfaethedig yn adlewyrchu egwyddorion creu lleoedd strategol, hyd yn oed mewn cydestun gwledig, a hwyluso teithio llesol a chynaliadwy. Yn ychwanegol, mae'r cynnig yn methu gwneud darpariaethau ar gyfer lle agored newydd ac mae felly yn erbyn polisi LU24 y Cynllun Datblygu Lleol.
- **Priffyrdd** – Yn gwrthwynebu
- **Draenio Tir** – Mae angen gwybodaeth bellach
- **Ecoleg** – Ni dderbyniwyd ymateb
- **Cyfoeth Naturiol Cymru** - Ni dderbyniwyd ymateb
- **Dŵr Cymru** - Dim gwrthwynebiad yn ddibynnol ar amodau

Derbyniwyd un gwrthwynebiad trydydd parti am y rhesymau canlynol:

- Nid yw'r gyffordd sy'n ymuno â Rhiwgoch yn ddigonol ar gyfer mwy o draffig.
- Dim ardal chwarae i blant.

CASGLIAD

Mae Adran 38 (6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan:

“Os ystyrir y cynllun datblygu at bwmpas gwneud penderfyniad o dan Ddeddfau Cynllunio bydd yn rhaid gwneud y penderfyniad hwnnw yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaethau materion yn cyfleu fel arall”.

Egwyddor y Datblygiad

Mae safle'r cais o fewn Anheddiad Cyswllt Ffos-y-Ffin sy'n rhan o Grŵp Anheddiad Aberaeron/Llwyncelyn. Mae Polisi S01 y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio blaenoriaethu datblygiadau o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Trefol, gan mai dyma'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer tyfiant, ac yna fe'u dilynir gan y Canolfannau Gwasanaeth Gwledig, a dim ond mân ddatblygiad a ganiateir o fewn yr 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill', er mwyn bodloni anghenion y cymunedau presennol. Nid oes gan Aneddiadau Cyswllt ffiniau i'w haneddiadau ac nid oes ganddynt ddyraniadau tai chwaith. Yn lle hynny bydd disgwyl i ddatblygiad gysylltu'n dda â'r ffurf adeiledig presennol a hefyd disgwylir iddo fod wedi'i leoli yn ffurf adeiledig gwirioneddol yr anheddiad neu'n union ar ei bwys. Ystyrir bod safle'r cais o fewn ffurf adeiledig gwirioneddol yr anheddiad ac felly ystyrir ei fod yn Anheddiad Cyswllt Ffos-y-Ffin ac nid o fewn 'Lleoliadau Eraill'.

Mae Polisi Cynllun Datblygu Lleol S04 yn nodi pryd y bydd datblygiad tai o fewn Aneddiadau Cyswllt yn dderbyniol:-

- 2 (b): mae'r maen prawf hwn yn nodi na ddylai lefel y datblygiad o fewn 'Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill' fod yn uwch na'r ddarpariaeth a nodwyd yn Atodiad 2. Yn ôl y ffigyrau tai diweddaraf ar yr adeg pan fo'r adroddiad hwn yn cael ei ysgrifennu, sef mis Mawrth 2022, gwelir bod 62 annedd wedi'u cwblhau a bod 31 caniatâd sydd heb eu gweithredu o fewn yr Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill sy'n ffurfio Grŵp Anheddiad Aberaeron/Llwyncelyn, gan olygu mai'r hyn sydd ar ôl o ran y gofyniad yw minws 26 annedd. Mae lefel y datblygiad tai yn yr Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill eisoes 26 annedd yn fwy na'r ddarpariaeth a nodwyd;
- 2(c): mae'r maen prawf hwn yn mynnu na ddylai datblygiad tai o fewn yr Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill fod ar raddfa fwy na graddfa gymesur y datblygiad yn y Ganolfan Wasanaeth berthnasol, sef Aberaeron/Llwyncelyn yn yr achos hwn. Mae'r ffigyrau tai diweddaraf yn dangos bod y raddfa datblygu tai o fewn yr Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill wedi digwydd ar raddfa uwch na graddfa gymesur y datblygiad yn Aberaeron/Llwyncelyn.
- 2(d): mae'r maen prawf hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygiad tai o fewn yr Aneddiadau Cyswllt beidio â bod yn fwy na 12% o lefel y stoc dai fel yr oedd yn 2007. Roedd y stoc dai yn Ffos-y-ffin ym mis Ebrill 2007 yn 221, ac mae cynnydd o 12% yn caniatáu cynnydd o 27 uned dai. Mae'r ffigyrau tai diweddaraf yn dangos fod 22 o dai wedi'u cwblhau a bod 5 caniatâd sydd heb eu gweithredu, sy'n golygu bod ymrwymiad ar hyn o bryd i gyfanswm o 27 uned ac felly bod 0 uned ar ôl yn ôl y gofyn.

Yn gryno, mae lefel y datblygiad o fewn yr Anheddiad Cyswllt a Lleoliadau Eraill eisoes 26 annedd yn fwy na'r ddarpariaeth. Gwelwyd twf anghymesur o fewn yr Anheddiad Cyswllt a Lleoliadau Eraill o'i gymharu â Chanolfan Gwasanaethau Aberaeron/Llwyncelyn ac nid oes darpariaeth bellach am fwy o anheddau o fewn Anheddiad Cyswllt Ffos-y-ffin. Mae'r cais yn gofyn am ganiatâd ar gyfer saith annedd ychwanegol, felly byddai'n creu cynnydd pellach i ddyraniad tai Ffos-y-Ffin.

Mae'r datblygiad arfaethedig i'r tir felly yn groes i strategaeth dai y Cynllun Datblygu Lleol a nodwyd o fewn Polisi S01 a S04.

Ystyriwyd y datblygiad arfaethedig hefyd yn unol â chynllunio cenedlaethol, yn bennaf Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru o ran egwyddorion y polisi hwnnw. Nodwyd bod Ffos-y-ffin yn cynnwys rhai gwasanaethau a chyfleusterau gan

gynnwys siop ac mae gwasanaeth bws aml yn rhedeg rhwng Aberystwyth ac Aberteifi drwy'r 'Ganolfan Wasanaeth' agosaf, sef Aberaeron. Nodwyd hefyd fod gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu 'llwybr diogel i'r ysgol' a fyddai'n cysylltu Ffos-y-ffin ac Aberaeron. Er bod llwybr troed wedi ei adeiladu rhwng Bro Ddewi ac Ystad Rhiwgoch, mae angen caffael a neilltuo mwy o dir er mwyn cwblhau'r cynllun ac felly nid oes sicrwydd pryd y bydd y cynllun wedi ei gwblhau. Er bod lleoliad y safle arfaethedig ar bwys y ffurf adeiledig presennol, eto i gyd mae rhai pryderon o ran lleoliad y safle arfaethedig gan y byddai'r datblygiad yn golygu ymyrryd â chefn gwlad a byddai'n peri bod datblygiad yn cael ei gyfeirio ymaith oddi wrth y gwasanaethau sy'n bodoli yn Ffos-y-ffin. Yn ychwanegol at hyn mae'n rhaid i deithio llesol fod yn rhan hanfodol a chanolog o bob datblygiad newydd ac o ystyried lleoliad y datblygiad arfaethedig, mae pryderon ynghylch y graddau y byddai'r datblygiad arfaethedig yn lleihau'r angen i deithio a'r graddau y byddai'n ei gwneud hi'n hwylus i bobl fabwysiadu dulliau llesol a chynaliadwy o deithio. Felly, mae pryderon i ba raddau y mae'r datblygiad arfaethedig yn adlewyrchu egwyddorion creu lleoedd strategol a nodir yn y ddogfen Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru, hyd yn oed o fewn cyd-destun gwledig.

Asesiad Cymunedol ac Ieithyddol

Mae polisi DM01 y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi bod angen Asesiad Cymunedol ac Ieithyddol i ganiatáu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud penderfyniad gwybodus a yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar gydlyniant cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol y gymuned, gan fod cyfradd a graddfa'r datblygiad yn groes i bolisi S04. Ni chyflwynwyd asesiad gyda'r cynnig, felly, nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gallu penderfynu a fyddai'r cynnig yn cael effaith ar gydlyniant cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol y gymuned. O ganlyniad, ni ellir ateb pryderon y Cyngor Cymuned ar y pwynt hwn.

Dwysedd Tai

Mae Polisi LU06 y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi'r dwysedd ar gyfer datblygiad tai arfaethedig. Mae'n debyg y byddai Ffos-y-ffin yn cael ei ystyried ar gyrion Anheddiad Gwledig Mawr, lle mae'r dwysedd arfaethedig yn 20-25 uned yr hectar. Mae safle'r cais yn mesur oddeutu 0/395ha ac mae'r cynnig am saith annedd. Mae'r cynllun bloc arfaethedig yn dangos bod digon o le gan yr anheddau a'r gerddi a'u bod o fewn yr hyn sy'n ofynnol o ran dwysedd tai.

Lle Agored

Nid yw'r cynlluniau a gyflwynwyd yn dangos bod unrhyw le agored newydd yn cael ei ddarparu. Yn unol â pholisi LU24, wrth ddatblygu ar hapsafle a safleoedd nad ydynt wedi'u dynodi mae'n orfodol darparu lle agored newydd os yw'r datblygiad yn arwain at fwy na chyfanswm o ddeg ystafell wely. Felly, mae hi'n ofynnol i'r cynnig ddarparu lle agored. Dylai'r math o le agored a maint y lle agored fod yn unol â'r Canllaw Cynllunio Atodol ar Fannau Agored. Mae'r cynnig felly yn gwrthdaro â pholisi LU24.

Dyluniad a Chymeriad:

Yn ôl Polisi DM06 y Cynllun Datblygu Lleol mae angen i ddatblygiad fod o ddyluniad ansawdd uchel a chyfrannu'n gadarnhaol at ei gyd-destun; ac mae Polisi DM17 yn ceisio gwarchod nodweddion arbennig y dirwedd. Ystyrir bod dyluniad yr anheddau o ansawdd uchel ac nid oes unrhyw bryderon. Ni thybir y bydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar gymeriad a golwg yr ardal.

Amwynder Preswyl

Nid yw maen prawf 7 DM06 y Polisi Cynllun Datblygu yn caniatáu datblygiad a fydd yn cael effaith andwyol sylweddol ar amwynder deiliaid cyfagos o ran preifatrwydd, swm a golygfa. Ar ôl ystyried cynllun y datblygiad arfaethedig, nid yw'n ymddangos y bydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar ddeiliaid yr anheddau presennol neu anheddau arfaethedig cyfagos.

Priffyrdd

Mae'r Awdurdod Priffyrdd Lleol wedi argymhell i'r cais gael ei wrthod am y rhesymau canlynol:

1. Mae'r Awdurdod Priffyrdd Lleol o'r farn nad oes gan seilwaith y Ffordd Sirol Dosbarth III gyfagos (Llwybr rhif 1062) gapasiti digonol i ganiatáu datblygiad pellach yn y lleoliad hwn yn Ffos-y-ffin, heb wneud gwelliannau i'r ffordd.
2. Cymeradwywyd datblygiad cyfyngedig ar hyd y rhan hon o ffordd y C1063 yn ystod y ddau ddegawd diwethaf heb unrhyw ofyniad i uwchraddio a gwella cyffordd y C1062/C1282 na ddarparu cyfleusterau teithio llesol. Fodd bynnag, byddai'r cynnig yn ymestyn y datblygiad ymhellach ar hyd y C1062, y tu allan i ardal y terfyn cyflymder 30 mya, ac mae'n peri bod datblygiad yn lledaenu ymhellach oddi wrth ddarpariaethau'r gwasanaeth lleol, gan wrthdaro gydag amcanion datblygiad cynaliadwy, yr angen i deithio cyn lleied â phosibl a'r gallu i annog cerdded, seiclo, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a pheri bod pobl yn dibynnu'n llai ar geir preifat yn ôl y polisi cenedlaethol a lleol.
3. Yn ogystal, byddai'r cynllun a gyflwynwyd yn ychwanegu at y mynedfeydd a fyddai'n arwain at y briffordd gyhoeddus a byddai'n golygu bod mwy o ymyrraeth ar lif rhydd a diogel trafnidiaeth; a byddai hynny'n niweidiol i ddiogelwch y

briffordd.

Draenio Tir

Mae'r ffurflen gais yn nodi y bydd dŵr wyneb yn cael ei ddraenio drwy gyfrwng system ddraenio gynaliadwy, suddfan ddŵr a'r system bresennol, fodd bynnag, nid oes manylion eraill wedi eu darparu. Bydd angen cymeradwyaeth System Ddraenio Gynaliadwy oddi wrth Awdurdod Draenio Cynaliadwy'r Cyngor cyn dechrau gweithio ar y safle ac felly ymdrinnir â'r mater hwn drwy ddilyn y weithdrefn honno.

O ran carthffosiaeth dŵr brwnt, mae'r ffurflen gais yn nodi mai'r dull o gael gwared â charthion fydd drwy'r brif garthffos. Mae'r Cyngor Cymuned wedi codi pryderon bod y system garthffosiaeth bresennol yn annigonol a bod preswylwyr lleol wedi bod yn cael problemau yn hyn o beth. Fodd bynnag, rydym wedi ymgynghori â Dŵr Cymru ac nid ydynt yn gwrthwynebu'r cynnig, yn ddibynnol ar rai amodau. Mae'r amod yn golygu y bydd yn rhaid cyflwyno cynllun draenio ar gyfer y safle cyn dechrau ar y datblygiad. Mae'r cynllun hwn i gynnwys manylion sut y bwriedir cael gwared ar ddŵr brwnt, dŵr wyneb a dŵr oddi ar y tir.

Ecoleg

Ymgynghorwyd a'r adran Ecoleg a ni chodwyd unrhyw wrthwynebiad yn ddarostyngedig i amodau. Mae'r amodau a argymhellir yn cynnwys yr angen am gynllun tirlunio a gwelliannau ecolegol ynghyd a chynllun trawsleoli gwrychoedd i'w gael ei gyflwyno (a'i gymeradwyo) cyn i'r gwaith ddechrau. Mae TLSE hefyd wedi'i gynnal a gadarnhaodd na ragwelir unrhyw effaith sylweddol ar sail y wybodaeth a ddarparwyd.

PWERAU DIRPRWYEDIG

Mae'r Cynghorydd Marc Davies wedi gofyn i'r cais gael ei benderfynu can y Pwyllgor am y rhesymau a ganlyn:

1. Byddai'r 7 uned yn naturiol yn llenwi'r safle presennol o fewn ei ffiniau naturiol.
2. Mae tri o'r saith uned yn cael eu cynnig fel unedau fforddiadwy. Mae hyn yn rhagori'r trothwy o 20%.
3. Mae'r oedi wrth gyflwyno'r CDLI newydd yn cael effaith andwyol ar nifer yr unedau. Gan fod Henfynyw yn anheddiad cysylltiedig ag Aberaeron, mae angen y niferoedd hyn o unedau. Byddai'r unedau ar gael oni bai am y CDLI yn cael ei ohirio.

ARGYMHELLIAD:

Argymhellir bod y cais yn cael ei wrthod gan fod egwyddor y datblygiad yn gwrthdaro â pholisi cenedlaethol a lleol. Mae'r adran briffordd yn gwrthwynebu, nid yw'r Awdurdod Datblygu Lleol yn gallu penderfynu a fyddai'r cynnig yn cael effaith ar gydlyniant cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol y gymuned gan nad oes asesiad wedi'i gyflwyno ac nid yw'r cais yn darparu lle agored yn unol â Pholisi LU24.

Rhif y Cais / Application Reference	A210523
Derbyniwyd / Received	25-05-2021
Y Bwriad / Proposal	Infill Residential Development of 7 Dwellings including Affordables (to be negotiated)
Lleoliad Safle / Site Location	Land At Wenfryn Ffosyffin, Aberaeron, SA46 0EY
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Mr P Mathias (PTM Developments Ltd), Wenfryn, Ffosyffin, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0EY
Asiant / Agent	Mr P Nicholls (ArchiSpec Architectural Consultants Ltd), Stiwdio Gido, Cwm Gido Gilfachreda, New Quay, SA45 9SS

THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site refers to an agricultural field, extending to approximately 0.4 hectares, within Henfynyw. The site lies adjacent to the partly constructed site known as 'Y Padogau' and is accessed from the C1062.

The application site has no relevant planning history.

DETAILS OF DEVELOPMENT

The application seeks full planning permission for the development of 7 dwellings, 2 of which are proposed to be affordable. All seven dwellings are proposed to be detached, two storey dwellings with two having direct access off the C1062 and 5 gaining access from a new access road. Plots 1 - 3 as labelled on the block plan (2 of which are proposed to be affordable) are shown to have 3 bedrooms with an open plan kitchen, living, dining space on the ground floor. The total floor area is 106sqm.

Plots labelled 4 and 5 are proposed to have 4 bedrooms with a garage and conservatory also proposed on the ground floor. The total floor area is 204sqm.

The plots labelled E and F which front the highway also have 4 bedrooms with two being en-suites. The ground floor also has a separate kitchen, living and dining room along with a garage, utility and conservatory. Plot E has a total footprint of 222sqm and Plot F, 212sqm.

The materials of the walls are to vary depending on the plots - including render, brick and stonework. Artificial slate is proposed to the roof with uPVC windows and composite doors.

The application states that the means of disposal of foul water is via mains sewer.

RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

Relevant National Planning Policy

The following national planning policy and guidance are considered relevant:

- Future Wales: the National Plan 2040
- Planning Policy Wales (edition 11)
- Technical Advice Note (TAN) 2: Planning and Affordable Housing
- Technical Advice Note (TAN) 5: Nature Conservation and Planning
- Technical Advice Note (TAN) 12: Design
- Technical Advice Note (TAN) 18: Transport
- Manual for Streets
- All Wales Estate Highway Design Guide

Relevant Local Planning Policy

These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

- S01 Sustainable Growth
- S04 Development in Linked Settlements and Other Locations
- S05 Affordable Housing

- LU02 Requirements Regarding All Residential Developments
- LU04 Meeting a Range of Housing Needs
- LU05 Securing the Delivery of Housing Development
- LU06 Housing Density
- DM01 Managing the Impacts of Development on Communities and the Welsh Language
- DM03 Sustainable Travel
- DM04 Sustainable Travel Infrastructure as a Material Consideration
- DM05 Sustainable Development and Planning Gain
- DM06 High Quality Design and Placemaking
- DM10 Design and Landscaping
- DM12 Utility Infrastructure
- DM13 Sustainable Drainage Systems
- DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity
- DM15 Local Biodiversity Conservation
- DM17 General Landscape
- DM20 Protection of Trees| Hedgerows and Woodlands

The following adopted Supplementary Planning Guidance are considered to be relevant:

- Nature Conservation SPG
- Built Environment and Design SPG
- CCC Parking Standards SPG
- Open Space SPG

OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

CRIME AND DISORDER ACT 1998

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

EQUALITY ACT 2010

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

CONSULTATION RESPONSES

- **Cyngor Cymuned Henfynyw Community Council** - Object for the following reasons:
 - - Sewerage system isn't adequate for the existing housing supply. any residents within the community have suffered an overflow into their gardens.
 - - Application doesn't specify how many affordable dwellings.
 - - Has the impact on the Welsh language been considered.

- - Any alterations should be made in writing.
- **CCC Planning Policy** - Contrary to LDP policy S04 and concerns over the extent to which the proposed development would reflect the strategic placemaking principles, even in a rural context, and facilitate active and sustainable travel. Additionally, the proposal fails to make provisions for new open space and is thus contrary to LDP Policy LU24.
- **Highways** - Object
- **Land Drainage** - Further information required
- **Ecology** - No Objection Subject to Conditions
- **Natural Resources Wales** - No Response Received
- **Dwr Cymru Welsh Water** - No Objection Subject to Conditions

One third party objection has been received on the following grounds:

- The junction joining Rhiwgoch isn't adequate to take an increase in traffic.
- No playing area for children.

CONCLUSION

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that:

"If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

Principle of Development

The application site lies within the Ffos-Y-Ffin Linked Settlement which forms part of the Aberaeron/Llwyncelyn Settlement Group. LDP Policy S01 seeks to prioritise development within the Urban Service Centres (USCs) as these represent the most sustainable locations for growth, followed by the Rural Service Centres, and only minor development is permissible within 'Linked Settlements and Other Locations' in order to meet the needs of existing communities. Linked Settlements do not have settlement boundaries, nor do they have housing allocations. Instead development will be expected to relate well to the existing built form, and also be located within or immediately adjacent to the substantive built form of the settlement. The application site is considered to be within the substantive built form of the settlement and is therefore considered to lie within the Linked Settlement of Ffos-y-Ffin and not within 'Other Locations'.

LDP Policy S04 sets out when housing development within Linked Settlements will be acceptable: -

- 2 (b): this criterion requires the overall level of development within the 'Linked Settlements and Other Locations (LS and OL)' to not exceed its provision as set out in Appendix 2. The latest housing figures at the time of writing this report, March 2022, show that there have been 62 dwellings completed and 31 outstanding consents within the LS and OL forming part of Aberaeron/Llwyncelyn Settlement Group, leaving a remaining requirement of minus 26 dwellings. The level of housing development within the LS and OL has exceeded its provision by 26 dwellings;
- 2(c): this criterion requires housing development with the LS and OL to not come forward at a rate greater than the proportionate rate of development in the relevant Service Centre which in this case is Aberaeron/Llwyncelyn. The latest housing figures show that the rate of development within the LS and OL have come forward at a rate greater than the proportionate rate of development within Aberaeron/Llwyncelyn.
- 2(d): this criterion requires housing development within LS to not exceed 12% of the existing level of housing stock as at 2007. The housing stock within Ffos-y-Ffin as of April 2007 was 221, and a 12% increase allows for additional 27 housing units. The latest housing figures show that there have been 22 completions, and 5 outstanding consents leaving a total commitment of 27 units, and thus a remaining requiring of 0 unit.

In summary, the level of development within the LS and OL has already exceeding its provision by 26 dwellings, there has been a disproportionate amount of growth within the LS and OL compared to Aberaeron/Llwyncelyn Service Centre, and there is no further provision for more dwellings within Ffos-y-Ffin Linked Settlement. The application seeks consent for an additional seven dwellings and therefore, would create a further increase to the housing allocation of Ffos-Y-Ffin.

The proposed development of the land is therefore contrary to the LDP housing strategy set out within Policies S01 and S04.

The proposed development has also been considered in line with national planning, mainly Future Wales and Planning Policy Wales in terms of its principle. It is noted that Ffos y Ffin contains some services and facilities including a shop and the settlement is served by a frequent bus service operating between Aberystwyth and Cardigan via the nearest 'Service Centre' Aberaeron. It is also noted that work is ongoing to establish a 'safe route to school' linking Ffos-y-Ffin to Aberaeron. Whilst a new footway has been constructed between Bro Ddewi and Rhiwgoch Estate, further land acquisitions and dedications are required to complete the scheme and thus there are no guarantees of when the scheme may or may not be completed. However there are some concerns with the regards to the location of the proposed site as whilst it is adjacent to

the existing built form, the development would entail an incursion into the countryside and result in development being directed away from the existing services in Ffos-y-Ffin. Furthermore, active travel must be an essential and integral component of all new development and given the location of the proposed development, there are concerns regarding the extent to which the proposed development would minimise the need to travel and facilitate the uptake of active and sustainable modes of travel. Therefore, there are concerns over the extent to which the proposed development would reflect the strategic placemaking principles set out in Future Wales and Planning Policy Wales, even in a rural context.

Community and Linguistic Assessment

Policy DM01 of the LDP notes that a Community and Linguistic Assessment is required to enable the LPA to make an informed decision on whether the proposed development is likely to have a negative impact on the social, linguistic or cultural cohesion of the community, as the rate and scale of development is contrary to policy S04. No assessment has been submitted with the proposal, therefore, the LPA are unable to determine whether the proposal would have an impact on the social, linguistic or cultural cohesion of the community. Consequently, the concerns of the Community Council on this point are unable to be answered.

Housing Density

LDP Policy LU06 sets out the density for a proposed housing development. It is considered that Ffos-y-Ffin would likely be considered a Large Rural Settlement Edge, where the proposed density is 20-25 units per hectare. The application site measures approximately 0/395ha and the proposal is for seven dwellings. The proposed block plan shows that the dwellings and garden areas have sufficient space and are within the housing density requirement.

Open Space

The submitted plans do not demonstrate the provision of any new open space. In accordance with Policy LU24, development on windfall and non-allocated sites are required to provide new open space if the development results in more than 10 bedrooms in total. Therefore, the proposal is required to provide new open space. The type and amount should be in accordance with the Open Space Supplementary Planning Guidance. The proposal therefore conflicts with Policy LU24.

Design and Character:

LDP Policy DM06 requires development to be of a high quality design and contribute positively to its context; and Policy DM17 seeks to protect the special qualities of the landscape. The design of the dwellings are considered to be of high quality design and no concerns are raised. The proposal is not considered to have an adverse impact on the character and appearance of the area.

Residential Amenity

LDP Policy DM06, criterion 7, does not permit development that will have a significant adverse impact on the amenity of the nearby occupiers in relation to privacy, noise and outlook. Having considered the layout of the proposed development, the proposal is not considered to have a negative impact on occupiers of existing or proposed nearby dwellings.

Highways

The Local Highways Authority (LHA) have recommended that permission is refused for the following reasons:

1. The LHA considers that the adjoining County Class III Road (Route No.C1062) has inadequate infrastructure capacity to cater for further development at this location within Ffosyffin without improvement.
2. Limited development has been approved along this section of the C1062 in the last couple of decades without any requirement to upgrade and improve the C1062/C1282 junction or provide active travel facilities. However, the proposals would extend development further along the C1062, outside of the envelope of the 30mph Speed Limit, and is spreading development further away from local service centre provisions conflicting with the aims of sustainable development, the need to minimise travel, and the ability to encourage walking, cycling, use of public transport and reduce the reliance on the private car as represented in national and local policy.
3. Moreover, the submitted scheme would add to a proliferation of accesses on to the public highway and lead to additional interference with free and safe flow of traffic, to the detriment of highway safety.

Land Drainage

The application form notes that surface water will be dealt with via a sustainable drainage system, soakaway and an existing system, however, no further details have been provided. SuDS approval will be required from the Council's Sustainable Drainage Authority prior to the start of works on site and therefore it will be dealt with under this procedure.

In terms of foul sewage, the application form states that the method for the disposal of foul sewage is via a mains sewer. Concerns have been raised by the Community Council that the current mains sewer system is inadequate and local residents have been experiencing issues with this. However, Welsh Water have been consulted and raise no objection to the proposal subject to conditions. The condition requires that prior to the commencement of development, a drainage scheme for the site is to be submitted. This is to include details on the disposal of foul, surface and land water.

Ecology

The Ecology department have raised no objection subject to conditions. The recommended conditions include the requirement for a detailed landscaping and ecological enhancement scheme along with a hedgerow translocation scheme to be submitted (and approved) prior to works commencing. A TLSE has also been undertaken which confirmed that no significant effect is predicted based on the information provided.

Power of Delegation

Cllr Marc Davies has requested the application be taken to DM Committee for the following reasons:

1. The seven units would naturally fill in the existing site within its natural boundaries.
2. Three of the seven units are proposed as affordable units. This far exceeds the 20% threshold.
3. The delay in bringing forward the new LDP has a detrimental effect on unit numbers. Henfenyw being a linked settlement to Aberaeron need these unit numbers and would be available but for the afore mentioned delayed LDP.

RECOMMENDATION:

The application is recommended for refusal as the principle of development conflicts with both national and local planning policy, there is a highway objection, the LPA are unable to determine whether the proposal would have an impact on the social, linguistic or cultural cohesion of the community as no assessment has been submitted, and the proposal does not provide open space in line with Policy LU24.